**Rebecca Evans AC/AM**
**Gweinidog Iechyd y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymdeithasol**
**Minister for Social Services and Public Health**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-05-784
Ein cyf/Our ref RE/00954/17

David John Rowlands AC
Cadeirydd y Pwyllgor Deisebau
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

government.committee.business@cymru.gsi.gov.uk

18 Hydref 2017

Annwyl David,

Diolch ichi am eich llythyr am y ddeiseb a gafwyd oddi wrth Stevie Lewis ynglŷn â dibyniaeth ar gyffuriau rhagnodedig. Rwy'n ymateb i'r mater hwn gan fod camddefnyddio sylweddau'n rhan o'm portffolio.

Rwy'n sylweddoli bod camddefnyddio cyffuriau presgripsiwn yn unig a meddyginiaethau dros y cownter yn peri problemau iechyd dybryd i rai pobl. Gall camddefnyddio gynnwys sefyllfaoedd lle efallai y bu arferion rhagnodi gwael a arweiniodd at ddibyniaeth neu broblemau eraill o bosibl, yn ogystal â defnyddio meddyginiaeth at ddiben na fwriadwyd y feddyginiaeth ar ei gyfer yn wreiddiol.

Mae gan Llywodraeth Cymru strategaeth deng mlynedd i fynd i'r afael â'r niwed sydd ynghlwm wrth gamddefnyddio sylweddau ac mae hwn yn nodi ein dull o fynd ati i ymdrin â'r holl amrywiaeth o sylweddau sy'n cael eu camddefnyddio yng Nghymru. Mae hyn yn cynnwys meddyginiaethau trwy bresgripsiwn yn unig a rhai a geir dros y cownter, fel cymysgeddau sy'n cynnwys codin.

Rydym yn buddsoddi bron £50 miliwn yn yr agenda camddefnyddio sylweddau bob blwyddyn. Mae £22.6 miliwn yn cael ei roi i'r saith Bwrdd Cynllunio Ardal (APB) sy'n gyfrifol am gomisiynu'r holl wasanaethau camddefnyddio sylweddau lleol i gefnogi'r bobl sy'n gaeth i amrywiaeth o gyffuriau, gan gynnwys meddyginiaethau trwy bresgripsiwn yn unig a meddyginiaethau dros y cownter.

Mae mynd i'r afael â dibyniaeth ar feddyginiaethau presgripsiwn yn unig a meddyginiaethau dros y cownter yn flaenoriaeth i mi. Dyna pam y mae nifer o gamau penodol yn ein Cynllun Cyflawni ar gyfer Camddefnyddio Sylweddau 2016-18 sy'n ymwneud â hynny. Mae hyn yn cynnwys gwaith atal ac ymgyrchoedd codi ymwybyddiaeth sydd wedi'u targedu a datblygu

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Rebecca.Evans@llyw.cymru
Correspondence.Rebecca.Evans@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Fframwaith Triniaethau Camddefnyddio Sylweddau arbennig sy'n canolbwyntio'n benodol ar feddyginiaethau trwy bresgripsiwn yn unig a meddyginiaethau dros y cownter. Disgwylir i'r canllawiau hyn gael eu cyhoeddi ym mis Mawrth 2018 a byddant yn helpu Byrddau Cynllunio Ardal a gwasanaethau triniaethau i ymateb i anghenion pobl sy'n gaeth i'r meddyginiaethau hyn.

Cyhoeddodd Panel Cynghori arbenigol ac annibynnol Llywodraeth Cymru ar Gamddefnyddio Sylweddau (APoSM) adroddiad yn 2015 o'r enw *'Reducing the harms associated with prescription-only analgesics: Tramadol"* a wnaeth nifer o argymhellion i fynd i'r afael â phroblem marwolaethau sy'n gysylltiedig â tramadol a meddyginiaethau eraill sydd ar gael trwy bresgripsiwn yn unig (POM). Yn sgil yr adroddiad hwn, mae'r Panel yn awr yn ystyried y materion sy'n gysylltiedig â phoenliniarwyr (gan gynnwys poenliniarwyr opioid) ar wahân i tramadol, er mwyn gwneud argymhellion i wella eu defnyddio'n ddiogel, yn effeithiol ac yn briodol.

Mae'r Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal wedi gosod canllawiau pendant ar gyfer rhagnodi cyffuriau gwrth iselder a thriniaeth ar gyfer iselder. Yn ogystal, cyhoeddwyd canllawiau cynhwysfawr ar gyfer rhagnodi a monitro cyffuriau hypnotig a chyffuriau lleihau gorbryder, gan gynnwys bensodiasepinau, gan Grŵp Strategaeth Feddyginiaethau Cymru yn 2011 ac fe'u diweddarwyd yn 2016. Hefyd, dosbarthwyd Cylchlythyr Iechyd Cymru penodol ledled Cymru ym mis Gorffennaf 2016 yn darparu cyngor i ragnodwyr ynghylch camddefnyddio pregabalin a gabapentin.

Mae'n ofynnol i glinigwyr ddilyn y canllawiau hyn a defnyddio eu crebwyll clinigol i benderfynu pa gwrs o driniaeth i'w ragnodi i'w cleifion, ar sail anghenion unigol y claf a'i hanes meddygol. Mae'r dewisiadau o ran triniaeth yn cynnwys ymyriadau seicogymdeithasol yn ogystal â, neu yn lle meddyginiaeth ragnodedig.

Rwy'n gobeithio bod yr wybodaeth hon yn rhoi darlun i chi o'r gwaith sy'n cael ei wneud ar hyn o bryd yng Nghymru mewn perthynas â meddyginiaethau trwy bresgripsiwn yn unig a meddyginiaethau dros y cownter. Mae Llywodraeth Cymru'n cydnabod bod hwn yn fater pwysig ar yr agenda camddefnyddio cyffuriau a bydd fy swyddogion yn parhau i weithio gyda rhanddeiliaid i sicrhau bod unigolion sy'n gaeth i feddyginiaethau trwy bresgripsiwn yn unig a meddyginiaethau dros y cownter yn cael yr help sydd ei angen arnynt ac yn cael triniaeth briodol.

Yn gywir,



**Rebecca Evans AC**
Gweinidog Iechyd y Cyhoedd a Gwasanaethau Cymdeithasol
Minister for Social Services and Public Health